

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

OPSIYNAU TAI A THWF CYFLOGAETH

Medi 2023



PAPUR CEFNDIROL - BP7



I. Crynodeb Gweithredol

- i. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer cyfnod y cynllun sef 2021-2036. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLIN yn nodi fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mro Morgannwg a bydd yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a rhesymegol. Bydd y CDLIN hefyd yn penderfynu ble y bydd datblygiad newydd yn digwydd, a bydd yn dyrannu tir ar gyfer tai, cyflogaeth a seilwaith, yn ogystal â nodi ardaloedd o dir i'w gwarchod.
- ii. Un o brif swyddogaethau'r CDLIN yw sicrhau bod digon o dir ar gael ym Mro Morgannwg i ddarparu'r gofynion tai a chyflogaeth angenrheidiol yn y dyfodol dros oes y cynllun. Mae'r gofynion hyn yn dibynnu ar nifer y bobl, felly mae lefel y boblogaeth yn y dyfodol y mae'n rhaid darparu ar ei chyfer yn ystyriaeth allweddol yn y cynllun.
- iii. Wrth baratoi'r CDLIN, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried ystod o senarios twf yn y boblogaeth i helpu i nodi lefel y twf tai a chyflogaeth a ddarperir dros gyfnod y cynllun.
- iv. Felly comisiynodd y Cyngor Edge Analytics i lunio papur technegol (Tystiolaeth Ddemograffig Bro Morgannwg Chwefror 2023) i ddarparu ystod o dystiolaeth o dwf y boblogaeth, tai a chyflogaeth i lywio'r CDLIN datblygol. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â senarios demograffig a rhai â phwyslais ar anheddau a chyflogaeth.
- v. I ategu'r dystiolaeth ddemograffig, comisiynodd y Cyngor Astudiaeth Tir Cyflogaeth (ATC Hydref 2022) i nodi'r gofynion tir cyflogaeth ar gyfer y Fro. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ystyriodd yr ATC nifer o senarios sy'n seiliedig ar dueddiadau i nodi angen dros oes y cynllun a nododd y tir cyflogaeth oedd ei angen ar gyfer pob opsiwn. Mae'r ATC yn argymhell bod y Cyngor yn penderfynu ar ddarpariaeth tir cyflogaeth yn seiliedig ar ddefnydd hanesyddol, gan ei gwneud yn ofynnol darparu **67.80ha** o dir â chapasiti i gefnogi **5,338 o swyddi**¹ dros gyfnod y cynllun.
- vi. Mae'r Papur hwn yn un o sawl dogfen gefndir a baratowyd fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi'r CDLIN ac mae'n nodi opsiynau eraill a ystyriwyd sy'n seiliedig ar ystod o senarios demograffig, anheddau a chyflogaeth amgen a'r goblygiadau posibl sy'n deillio o bob un.
- vii. Mae cyfanswm o 12 senario twf wedi'u cynhyrchu ar gyfer Bro Morgannwg. Mae'r rhain yn cynnwys 4 senario poblogaeth a demograffig, 3 senario mudo sy'n seiliedig ar dueddiadau, 2 senario â phwyslais ar anheddau a 3 senario â phwyslais ar gyflogaeth.

¹ Dyma nifer y swyddi y gellid eu cynhyrchu drwy'r cyflenwad tir, ond at ddibenion modelu'r boblogaeth roedd hyn wedi'i addasu i 5,112 i gyfrif am 'swyddi dwbl' ac mae'n ymwneud â nifer y bobl a gyflogir nid nifer y swyddi.

- viii. Er mwyn rhoi syniad o sefyllfa'r llinell sylfaen, mae gwybodaeth ddiweddaraf Cyfrifiad 2021 am feintiau poblogaeth ac aelwydydd Bro Morgannwg yn dangos mai **131,800** oedd poblogaeth y Fro a bod **57,500** o aelwydydd.
- ix. Yn dilyn asesiad o'r 12 senario, mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r rhagolygon tai, cyflogaeth a demograffig a ragwelir a gyflwynir gan y senario Anheddau 10 mlynedd o anheddau yn cynrychioli'r opsiwn twf priodol ar gyfer y CDLIN. O dan yr opsiwn hwn, rhagwelir y bydd poblogaeth y Fro yn tyfu 13,154 (9.7%) dros y cyfnod 2021-2036.
- x. Y gofyniad tai ar gyfer y cynllun o dan y senario a ddewiswyd fydd 7,890 o anheddau, a fyddai'n barhad o'r gwaith o gwblhau 526 o dai y flwyddyn ar gyfartaledd sydd wedi digwydd yn y Fro dros y 10 mlynedd diwethaf. Gan gynnwys clustog o 10% ar gyfer hyblygrwydd i sicrhau cyflawnadwyedd, bydd y CDLIN yn darparu **8,679 o anheddau**. Gan ystyried cyfraniad y cyflenwad tir presennol, h.y. safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, gan gynnwys yr unedau hynny sy'n cael eu hadeiladu, a safleoedd y CDLI presennol sydd eisoes wedi'u mabwysiadu, bydd angen tir ar gyfer **2,619** o anheddau i fodloni'r gofyniad hwn.
- xi. O ran twf cyflogaeth, rhagwelir y bydd yr opsiwn hwn yn darparu 4,870 o swyddi ychwanegol dros oes y cynllun, sy'n cyd-fynd yn agos â'r 5,112 o swyddi y gellid eu gwireddu drwy'r cyflenwad tir cyflogaeth a argymhellir yn yr ATC. Mae gan hyn y potensial i leihau cyfraddau cymudo allanol dros gyfnod y cynllun, ac ar hyn o bryd mae rhyw 13,000 o drigolion yn cymudo allan o'r Fro ar gyfer cyflogaeth. Byddai lefel y tai a swyddi ychwanegol yn y senario hon hefyd yn ategu rôl y Fro o ran ardal twf Cymru'r Dyfodol, heb arwain yn ormodol at lefelau uchel o fewnfudo a allai ailgyfeirio twf yn ddiangen i ffwrdd o ardaloedd twf blaenoriaeth a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol, yn enwedig yng Nghaerdydd gyfagos. Byddai hefyd yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf i ddarparu tai fforddiadwy yn unol â Cymru'r Dyfodol.
- xii. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu lefel o fudo a fyddai'n sicrhau y byddai'r boblogaeth oedran gweithio yn y Fro yn aros yn sefydlog i wrthbwysu'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth hŷn. Byddai hyn yn cefnogi twf economaidd ymhellach, ochr yn ochr â chymunedau mwy cytbwys yn ddemograffig.

Tabl i: Senarios Twf a Ddewiswyd (Tystiolaeth Ddemograffig Bro Morgannwg, Edge Analytics Chwefror 2023)

Opsiwn	Senario	Newid Poblogaeth ac Aelwydydd 2021-2036					Gofyniad Annedd		Twf Cyflogaeth		
		Newid yn y Boblogaeth	Newid yn y Boblogaeth %	Newid Aelwydydd	Newid Aelwydydd %	Mudo Cyfartal og Net y flwyddyn	Anhedda u y flwyddyn	Anhedda u Ychwanegol 2021-2036	Swyddi y flwyddyn	Swyddi Ychwanegol 2021-2036	Tir Cyflogaeth Gofyniad
Rhagamcanio n Llywodraeth Cymru 2014	Yn efelychu <i>Prif</i> amcanestyniad poblogaeth LIC o 2014, gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol o'r boblogaeth ar gyfer 2001–2014	13	0.0%	2,182	3.9%	64	151	2,265	-126	-1,890	-5.16 ha
Rhagamcanio n Llywodraeth Cymru 2018	Yn efelychu <i>Prif</i> amcanestyniad poblogaeth LIC o 2018, gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol o'r boblogaeth ar gyfer 2001–2018	9,787	7.3%	6,214	10.6%	851	431	6,465	243	3,645	9.96 ha
Rhagamcanio n Llywodraeth Cymru 2018 POBUCEL	Yn efelychu amcanestyniad poblogaeth <i>Uchel</i> LIC o 2018, gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol o'r boblogaeth ar gyfer 2001–2018, gan ymgorffori tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo uchel.	13,127	9.7%	7,500	12.7%	938	520	7,800	292	4,380	11.97 ha

Rhagamcanio n Llywodraeth Cymru 2018 POBISEL	Yn efelychu amcanestyniad poblogaeth /se/ LIC o 2018, gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol o'r boblogaeth ar gyfer 2001–2018, gan ymgorffori tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo isel.	5,172	3.8%	4,559	7.8%	759	316	4,740	191	2,865	7.82 ha
---	---	--------------	-------------	--------------	-------------	------------	------------	--------------	------------	--------------	----------------

Tabl i: Senarios Twf a Ddewiswyd (Tystiolaeth Ddemograffig Bro Morgannwg, Edge Analytics Chwefror 2023)											
Opsiw'n	Senario	Newid Poblogaeth ac Aelwydydd 2021-2036					Gofyniad Annedd		Twf Cyflogaeth		
		Newid yn y Boblogaeth	Newid yn y Boblogaeth %	Newid Aelwydydd	Newid Aelwydydd %	Mudo Cyfartalog Net y flwyddyn	Anheddau y flwyddyn	Anheddau Ychwanegol 2021-2036	Swyddi y flwyddyn	Swyddi Ychwanegol 2021-2036	Gofyniad Tir Cyflogaeth
TB-BI5	Yn defnyddio blwyddyn sylfaen ACB 2020 ONS ac yn graddnodi ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 5 mlynedd (2015/16– 2019/20).	16,923	12.4%	9,187	15.4%	1,222	637	9,555	426	6,390	17.45 ha*
TB-BI10	Yn defnyddio blwyddyn sylfaen ACB 2020 ONS ac yn graddnodi ei	8,519	6.3%	5,695	9.6%	741	395	5,925	197	2,955	8.07 ha*

	ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 10 mlynedd (2010/11–2019/20).										
TB-Tymor Hir	Yn defnyddio blwyddyn sylfaen ACB 2020 ONS ac yn graddnodi ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 19 mlynedd (2001/02–2019/20).	8,561	6.3%	5,705	9.6%	739	396	5,940	210	3,150	8.60 ha*
Anheddau BI5	Yn modelu effaith poblogaeth twf anheddau blynyddol cyfartalog o +698 o anheddau y flwyddyn, yn seiliedig ar hanes 5 mlynedd o gwblhau tai ym Mro Morgannwg (2017/18–2021/22).	19,048	13.9%	10,062	16.9%	1,360	698	10,470	493	7,395	20.20 ha*

Opsiwn	Senario	Newid Poblogaeth ac Aelwydydd 2021-2036					Gofyniad Annedd		Twf Cyflogaeth		
		Newid yn y Boblogaeth	Newid yn y Boblogaeth %	Newid Aelwydydd	Newid Aelwydydd %	Mudo Cyfartalog Net y flwyddyn	Anheddau y flwyddyn	Anheddau Ychwanegol 2021-2036	Swyddi y flwyddyn	Swyddi Ychwanegol 2021-2036	Gofyniad Tir Cyflogaeth
Anheddau BI10	Yn modelu effaith poblogaeth twf anheddau blynyddol cyfartalog o +526 o anheddau y flwyddyn, yn seiliedig ar hanes 10 mlynedd o gwblhau tai ym Mro Morgannwg (2011/12-2020/21).	13,154	9.7%	7,587	12.8%	1,009	526	7,890	325	4,875	13.32 ha*
Cyflogaeth - OE	Yn modelu effaith twf poblogaeth ar dwf cyflogaeth cyfartalog o +25 y flwyddyn ar gyfer Bro Morgannwg, fel yr awgrymir gan ragolygon Oxford Economics.	2,402	1.8%	3,041	5.2%	367	211	3,165	25	375	1.03 ha*
Cyflogaeth - ATC 1 **	Yn modelu effaith twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +341 y flwyddyn ar y boblogaeth ar gyfer Bro	13,224	9.8%	7,599	12.9%	1,020	527	7,905	341**	5,338*	67.80 Ha*

	Morgannwg, fel yr awgrymir gan ofyniad tir yr adolygiad tir cyflogaeth.										
Cyflogaeth - ATC 1 (CR 1-1)**	Yn modelu effaith twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +341 y flwyddyn ar y boblogaeth ar gyfer Bro Morgannwg, fel yr awgrymir gan ofyniad tir yr adolygiad tir cyflogaeth, gan gynnwys addasiadau i'r gymhareb cymudo yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod cymhareb 1:1 ar gyfer pob twf cyflogaeth yn y dyfodol gyda'r cynnydd i'r gweithlu llafur.	10,719	7.9%	6,548	11.1%	869	454	6,810	341**	5,338*	67.80 Ha*

* Wedi'i fodelu ar y capasiti posibl y gellid ei gefnogi gan y gofyniad cyflenwi tir cyflogaeth o 67.80 ha dros gyfnod y cynllun a nodwyd yn Astudiaeth Tir Cyflogaeth 2022) ** Gwnaed addasiad i'r ffigur cyflogaeth blynyddol i gyfrif am 'swyddi dwbl' (h.y. pobl a allai fod â mwy nag un swydd), i leihau'r ffigurau cychwynnol 4.4% i 5,112 dros gyfnod y cynllun. Mae'r addasiad swyddi dwbl hwn yn seiliedig ar gyfran y bobl sydd ag ail swyddi fel y'u cofnodir yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ar gyfartaledd dros gyfnod 2017–2021. Felly, mae nifer y swyddi blynyddol ychwanegol yn is na'r capasiti swyddi o 5,338 o swyddi a nodwyd yn yr adolygiad tir cyflogaeth.



Cyngor Bro Morgannwg
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

